



Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
5^{ed} Llawr
Tŷ Hywel
CAERDYDD
CF99 1NA

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annywl Gweinidog,

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich ymateb terfynol i'm Gofynion Gweithredu, ac rwyf nawr wedi cael cyfle i'w ddadansoddi¹.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd, y bydd fy Ngofynion Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau a geisir yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl hŷn.

Mewn nifer cyfyngedig o feysydd rydych chi wedi gallu rhoi lefel uchel o sicrwydd i mi y bydd y newid a geisir yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mewn nifer sylweddol o feysydd nid yw'r ymateb yn rhoi digon o fanylion neu dystiolaeth y bydd y Gofyniad Gweithredu yn cael ei weithredu a bydd y newid cysylltiedig yn cael ei gyflawni.

Roedd fy Ngofynion Gweithredu yn nodi'n glir effaith peidio â chyflawni'r newid gofynnol ar ansawdd bywyd pobl hŷn ac felly mae'n siomedig iawn o'r 21 o Ofynion Gweithredu a roddwyd ar Lywodraeth Cymru, dim ond

¹ Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn mynnu fy mod yn cadw cofrestr o'r ymatebion i fy Ngofynion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n rhan o fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan, ynghyd â dadansoddiad o bob ymateb.

pedwar ymateb a farnwyd yn rhai derbyniol, gyda chwech yn cael eu barnu fel rhai rhannol ac 11 yn annerbyniol. Rwyf wedi atodi dadansoddiad manwl o'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i mi.

Fel rwyf wedi'i ddweud yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a wyf yn credu y bydd y newid rwyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei gyflawni ledled Cymru. Rwyf hefyd yn bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol mewn perthynas â hyn a'r camau gweithredu a geisir gan gyrff unigol sy'n rhan o'r Adolygiad. Bydd y datganiadau hyn yn cael eu gwneud ar 11 Awst 2015. Ar y dyddiad hwn, byddaf yn cyhoeddi fy mwriad i gynnal Adolygiad dilynol ymhen 18 mis. Ar y cam hwn byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau rwyf yn disgwyl eu gweld wedi cael eu cyflawni'n gyson ar draws y sector cartrefi gofal.

Yn nes ymlaen byddaf yn rhoi gwybodaeth i chi ynghylch y cwmpas a'r dull gweithredu y byddaf yn eu mabwysiadu.

Gan fod lefel y manylion a roddwyd i mi mor gyfyngedig mewn nifer o achosion, efallai y byddech chi'n dymuno rhoi rhagor o wybodaeth i mi a fyddai'n rhoi'r sicrwydd rwyf ei angen y bydd y camau gweithredu gofynnol a'r canlyniadau a geisir yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at fy natganiad 'Blwyddyn yn Ddiweddarach' y byddaf yn ei wneud ym mis Tachwedd.

Mae croeso i chi gysylltu â fy swyddfa os hoffech chi drafod hyn ymhellach.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Llywodraeth Cymru

Angen Gweithredu 1.1

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.1 Dylid datblygu a gweithredu dull cenedlaethol o gynllunio gofal mewn cartrefi gofal o gwmpas Cymru. Mae'n rhaid i hyn gefnogi:

- Cyfranogiad llwyr y person hŷn er mwyn sicrhau bod ganddo lais effeithiol, yn cynnwys cefnogaeth eirioli pan fo angen hynny. Gall hyn gynnwys eiriolaeth annibynnol neu eiriolaeth o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Sicrhau bod hanes personol, diddordebau cymdeithasol a diwylliannol, gwaith, cyflawniadau, hoffterau, anhoffterau a dyheadau'r unigolyn yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn ei fywyd yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys anghenion diwylliannol ac ieithyddol pob person hŷn, yn cynnwys pobl hŷn sy'n Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhai sy'n arddel ffydd neu nad ydynt yn arddel ffydd.
- Cefnogaeth pontio ar ôl penderfynu symud i gartref gofal er mwyn sicrhau bod y broses o gynllunio gofal yn cychwyn cyn symud i gartref gofal.
- Bodloni anghenion emosiynol pobl hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn annwyl i rywun, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn derbyn gofal.
- Bodloni anghenion cyfathrebu pobl sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau.
- Anghenion siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.
- Hawliau i ofal iechyd ac asesu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac atgyfeirio at y gwasanaethau hynny.
- Hawliau'r unigolyn yn erbyn rheoli risg.
- Asesu amlddisgyblaethol (ar draws Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol ac yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector) ac asesu clinigol arbenigol.

Dylai'r canllawiau yma gael eu halinio'n amlwg â'r Fframwaith

Canlyniadau Cenedlaethol, sy'n sylfaen i Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol ar gynlluniau ansawdd gofal a chynllunio gofal yn erbyn y canllawiau cenedlaethol ac yn erbyn canlyniadau'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (gweler cam 6.10).

Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r holl faterion a godais mewn perthynas â chynllunio gofal yn y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal.

Trwy fy aelodaeth o'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal fel sylwedydd-gyfranogwr, fe fyddaf yn monitro sut y bydd y telerau a'r amodau enghreifftiol ar gyfer darparu gofal preswyl trwy safonau cytûn cenedlaethol yn hwyluso gwell cynlluniau gofal i bobl hŷn. Un peth i'w nodi'n arbennig yw fy ymateb i'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, lle rwyf wedi amlinellu fy nisgwyliadau ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys yn ystod y broses cynllunio gofal.

Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid ac unigolion sy'n derbyn gwasanaethau i gynhyrchu safonau/manyleb enghreifftiol y cytunir arnyn nhw'n genedlaethol ac a gyhoeddir i'r sector. Rwy'n disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â phobl hŷn mewn cartrefi gofal fel rhan o'i gwaith yn y maes yma; i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r system cynllunio gofal yn cael eu seilio ar adborth a phrofiadau gwirioneddol pobl hŷn.

Mae yna amserlen ac unigolyn atebol wedi'i enwi ar gyfer cyflawni'r Angen Gweithredu hwn.

Angen Gweithredu 1.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

1.2 Mae'r holl bobl hŷn, neu eu heiriolwyr, yn derbyn 'Pecyn Croeso' safonol wrth gyrraedd cartref gofal sy'n nodi sut y bydd Rheolwr y Cartref Gofal yn sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu bodloni, eu hawliau'n cael eu parchu a'u bod yn cael yr ansawdd bywyd gorau

posibl. Bydd y Pecyn Croeso yn cyfeirio'n benodol at:

- Sut fydd rheolwr y cartref gofal yn cefnogi'r preswlydd wrth iddo symud i'w gartref newydd. Gwybodaeth safonol am eu hawliau dynol yn unol â Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn Cymru.*
- Datganiad o Hawliau i dderbyn cefnogaeth gofal iechyd.*
- Cefnogaeth i gynnal annibyniaeth, ymataliaeth, symudedd a lles corfforol ac emosiynol.
- Sicrhau bod eu hanghenion cyfathrebu'n cael eu bodloni, yn cynnwys pobl sy'n colli defnydd o synhwyrâu.
- Cynnal cyfeillgarwch a chyswllt cymdeithasol.
- Cefnogaeth i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth ac i barhau i allu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.
- Datblygu a chynnal y gofal a roddir iddo a'r cynllun cefnogaeth, a beth fydd yn gynwysedig ynddo
- Sicrhau diwylliant o urddas a pharch a dewis a rheolaeth ar fywyd bob dydd.
- Sgiliau a hyfforddiant staff.
- Eu hawl i dderbyn eiriolaeth annibynnol a sut i leisio pryderon.*

(Dylai'r meysydd a nodir gyda * fod mewn fformat safonol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru)

Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried sut y dylid datblygu ymagwedd safonedig at wybodaeth i bobl hŷn sy'n symud i gartref gofal. Rwy'n neilltuol o falch y bydd y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn cwmpasu hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau fy Adolygiad a'r Anghenion Gweithredu, ac fe fyddaf yn monitro sut y bydd hyn yn datblygu trwy fy aelodaeth o'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal fel sylwedydd-gyfranogwr.

Ond, er bod yna amserlen ac unigolyn atebol wedi'i enwi i gyflawni'r Angen Gweithredu yma, does dim digon o fanylion ar hyn o bryd i roi sicrwydd llawn imi y bydd y camau a nodwyd yn yr ymateb yma yn golygu y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei ateb yn llawn.

Angen Gweithredu 1.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ymrwymadau cadarnhaol gan nodi camau y bydd yn eu cymryd i ategu'r arferion gorau mewn gofal ymataliaeth ar draws y sector cartrefi gofal. Rwy'n croesawu'r ymrwymadau a'r camau hyn sydd â'r potensial i helpu pobl hŷn yn well i gynnal eu hymataliaeth ac i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol.

Rwy'n falch y bydd Canllawiau Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd o'r blaen i'r GIG, yn cael eu hadolygu a'u haddasu i ffurfio sail i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cartrefi gofal.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Byrddau Iechyd ystyried pa fynediad y gall cartrefi gofal ei gael i gyngor arbenigol gan y cynghorwyr ymataliaeth arbenigol. Mae pob Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad cadarnhaol i sicrhau'r arferion gorau mewn gofal ymataliaeth i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn eu hymatebion unigol i'm Hadolygiad. Dylai'r arwydd yma o arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau na fydd anghenion ymataliaeth pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael eu hesgeuluso yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn darparu set o safonau i gartrefi gofal a fydd 'yn nodi yr hyn a ddisgwylir mewn amrediad o feysydd'. Fodd bynnag, dydy'r ymateb ddim yn cynnig datganiad pendant a fydd yna safonau ar ofal ymataliaeth ai peidio. Buaswn yn disgwyl bod safonau ar ofal ymataliaeth yn cael eu cynnwys ac o ganlyniad, yn cael eu gosod ar sail statudol sy'n disgwyl i bobl hŷn dderbyn cefnogaeth i gynnal eu hymataliaeth a defnyddio'r toiled yn annibynnol, gan roi preifatrwydd, urddas a pharch iddyn nhw bob amser.

Mae yna amserlen ar gyfer gweithredu ac unigolyn atebol wedi'i enwi i gyflawni'r Angen Gweithredu hwn.

Angen Gweithredu 1.4

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.4 Dylid datblygu a gweithredu canllawiau arferion da cenedlaethol mewn perthynas ag amseroedd bwyta a'r profiad o fwyta, yn cynnwys ar gyfer y rhai sy'n byw â dementia.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ymrwymadau cadarnhaol ac mae wedi nodi nifer o gamau y bydd yn eu cymryd a ddylai alluogi Llywodraeth Cymru i gefnogi'r arferion gorau ym mhrofiadau prydau bwyd a bwyta, gan gynnwys i'r rhai sy'n byw â dementia. Rwy'n croesawu'r ymrwymadau a'r camau hyn sydd â'r potensial i helpu pobl hŷn yn well i fwynhau profiad bwyta cadarnhaol a maethlon.

Rwy'n croesawu'n fawr ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau ar bwysigrwydd prydau bwyd a'r profiad bwyta fel gweithgaredd cymdeithasol mewn cartrefi gofal i bobl hŷn, a fydd yn ategu'r safonau a nodir ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae gan hyn y potensial i osod profiad prydau bwyd a bwyta pobl hŷn o fewn fframwaith statudol, sy'n mynd y tu hwnt i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cyfredol i sicrhau bod prydau bwyd yn brofiad cymdeithasol ac urddasol i bobl hŷn.

Rwy'n falch y bydd y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn cael cais i ddatblygu hyn fel rhan o'u rhaglen waith ac fe fyddaf yn monitro sut y bydd hyn yn datblygu trwy fy aelodaeth o'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal fel sylwedydd-gyfranogwr.

Rwy'n falch hefyd o nodi'r camau eraill mewn perthynas â throsglwyddo gwersi o'r GIG o ran llwybrau hydradu a maeth. Ond, rhaid i'r ffocws yma beidio â lleihau pwysigrwydd y profiad prydau bwyd yn enwedig i bobl sy'n byw â dementia, lle mae'r ymchwil wedi dangos bod effaith cyfranogiad cymdeithasol a rhyngweithio ystyrlon o amgylch prydau bwyd yn cynyddu'n sylweddol ar archwaeth, faint o fwyd sy'n cael ei fwyta a synnwyr pobl o hunaniaeth a llesiant personol.

Angen Gweithredu 2.1

Casgliad Terfynol - Rhannol

2.1 Datblygu a gweithredu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo iechyd corfforol a lles meddyliol a gwelliannau mewn cartrefi iechyd. Mae hyn yn cyfuno blaenoriaethau iechyd ehangach, yn ogystal â ffactorau risg penodol sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal, megis unigrwydd ac arwahanrwydd, cwmpadau, iselder, colli deheurwydd corfforol a symudedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad cadarnhaol y bydd yn trafod Cynllun Cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo a gwella llesiant corfforol a meddyliol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sefydlu ymateb Llywodraeth Cymru i hyn yng nghyd-destun y rhaglen '1,000 o Fywydau a Mwy'. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud ymrwymiad clir i gynhyrchu safonau gofal ar gyfer gofal corfforol integredig a chydlynol o dan Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Fe fydd y rhain yn cynnwys rhyngweithio cymdeithasol, gofal ataliol, iechyd meddwl, ymarfer corfforol, llesiant deietegol, iechyd y geg.

Rwy'n croesawu'r datganiadau hyn, a ddylai, o'u gwireddu, alluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynllun Cenedlaethol ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol mewn cartrefi gofal yn cael ei ddatblygu a'i weithredu. Fodd bynnag, os ydy Llywodraeth Cymru yn mynd i sicrhau bod pobl hŷn yn elwa oddi wrth ymagwedd genedlaethol a systemataidd at hybu iechyd sy'n eu galluogi i gynnal a gwella eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol, yna mae angen rhagor o eglurder a manylion ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r Angen yma mewn gwirionedd.

Fe fyddaf felly yn dilyn cynnydd yr Angen yma i sicrhau ei fod yn gallu cael ei gyflawni o'i gymharu â blaenoriaethau hybu iechyd ehangach yn ogystal â ffactorau risg neilltuol sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal megis unigrwydd ac arwahanrwydd, cwmpadau, iselder a cholli deheurwydd corfforol a symudedd.

Angen Gweithredu 2.3

Casgliad Terfynol - Rhannol

2.3 Datblygu a gweithredu Rhaglen Atal Cwypmiadau Cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal. Dylai hyn gynnwys:

- Galluogi pobl i aros yn actif mewn ffordd ddiogel
- Uwchraddio sgiliau holl staff cartrefi gofal o ran deall a lleihau'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chwypmiadau
- Cydbwysu rheoli risg a'r cysyniad o ansawdd bywyd a hawliau dynol pobl hŷn, er mwyn sicrhau nad yw camau atal risg a gymerir gan staff yn arwain at ofal cyfyngol.

Adrodd yn flynyddol am gwypmiadau mewn cartrefi gofal (gweler cam 6.8).

Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r gwaith ar y cyd sydd eisoes wedi dechrau o ran ymagwedd bartneriaeth at atal cwypmiadau, a'r ffaith bod gwaith wedi dechrau eisoes i ddatblygu dangosyddion cenedlaethol ynglŷn â chleifion mewnol sy'n cwmpo a safonau iechyd a gofal ynglŷn ag atal pobl rhag cwmpo. Rwy'n cytuno â Llywodraeth Cymru y gallai fod yna botensial i archwilio sut y gellid ymestyn yr ymgyrch genedlaethol yma i gartrefi gofal, yn enwedig mewn perthynas â rheoli risg o'i chymharu â phrofiad pobl hŷn o ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal.

Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r Angen Gweithredu yma, mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn canolbwyntio'n ddigonol ar amgylchedd y cartref gofal ac nad yw'n ychwanegiad yn unig at yr amgylchedd i gleifion mewnol er mwyn iddo wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Er bod yna amserlen ac unigolyn atebol wedi'i enwi i gyflawni'r Angen Gweithredu yma, does dim digon o fanylion ar hyn o bryd imi fod yn gwbl sicr bod amgylchiadau pobl hŷn mewn cartrefi gofal wedi'u harchwilio'n llawn, ac y bydd fy Angen yn cael ei ateb yn llawn.

Angen Gweithredu 2.4

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

2.4 Datblygu a chyhoeddi canllawiau arferion gorau cenedlaethol ynghylch amgylchedd y cartref gofal a chymhorthion ar gyfer bywyd bob dydd, megis dolenni sain a rheoli sŵn, y dylai pob cartref newydd a chartrefi a adnewyddir gydymffurfio â hwy. Dylai'r canllawiau hyn hefyd gynnwys mân newidiadau gorfodol y gellir eu gwneud i gartrefi gofal a manau awyr agored er mwyn galluogi pobl hŷn sy'n colli defnydd o synhwyrau a/neu sy'n dioddef â dementia i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth ac ansawdd bywyd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Fforwm Gofal Cymru a phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal i hyrwyddo'r arferion gorau, ac y bydd y Grŵp Adolygu Cartrefi Gofal yn arwain ar gwmpasu'r gwaith yma. Rwy'n nodi bod yr ymateb i Angen Gweithredu arall (3.1) yn datgan bod cynigion ynghylch sut y gellid gwneud amgylchedd ffisegol cartrefi nyrsio/gofal yn fwy cyfeillgar i ddementia wedi'u cyflwyno i'r Gweinidog ym mis Chwefror. Ond, does yna ddim rhagor o wybodaeth am gynnydd y cynigion hyn.

Mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru heb wneud ymrwymiad clir i gynhyrchu canllawiau am bwysigrwydd amgylchedd cartrefi gofal i bobl sy'n byw â dementia a cholled synhwyraidd. Darganfu fy Adolygiad y byddai canllawiau o'r fath o fudd enfawr i'r sector, gan nad oedd llawer o'r cartrefi gofal y bu fy nhîm o rapporteurs gofal cymdeithasol ynddyn nhw yn ymwybodol o sut y gallen nhw gefnogi pobl yn byw â dementia a/neu golled synhwyraidd yn well i fyw bywyd mwy cyflawn trwy addasiadau syml i amgylchedd y cartrefi gofal.

Gallai cyhoeddi'r arferion gorau cenedlaethol ar amgylchedd cartrefi gofal helpu darparwyr i nodi lle y gallai cymorth dylunio fod yn fuddiol i breswylwyr i'w helpu i ymgysylltu'n fwy ystyrlon yn eu bywydau beunyddiol trwy sgysiau ysgogol, gweithgareddau, perthnasoedd a thrwy wella gallu unigolyn i symud o gwmpas y cartref gofal yn ddiogel ac yn annibynnol. Ond, fe fydd diffyg canllawiau cenedlaethol y gellid eu rhaedru ar draws y sector yn dal i barhau'r anawsterau cyfredol y mae pobl hŷn yn eu hwynebu mewn cartrefi gofal, megis cael trafferth i

gyfathrebu â'i gilydd a'r staff, y gwyddys ei fod yn arwain at ynysu, encilio ac iselder.

Dydw i ddim yn sicr ynghylch y gwaith a gyflawnwyd eisoes gyda Fforwm Gofal Cymru a phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal i gyflawni'r Angen yma, felly does yna ddim digon o wybodaeth yn ymateb Llywodraeth Cymru imi fod yn gwbl sicr y caiff fy Angen ei ateb yn llawn. Mae hyn yn siomedig o gofio'r doreth o wybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael yng Nghymru.

Angen Gweithredu 3.1

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

3.1 Datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol yn seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth safonol ynghylch dementia sy'n cynnwys lefelau hyfforddiant sylfaenol, canolradd ac uwch, sy'n defnyddio realiti corfforol ac emosiynol pobl sy'n byw â dementia er mwyn galluogi staff i ddeall anghenion pobl sy'n byw â dementia yn well.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau clir yn y maes yma trwy fuddsoddi £240k ar gyfer hyfforddi staff a gwella diagnosis dementia yng Nghymru, a hyrwyddo'r arferion gorau yn barhaus gyda Fforwm Gofal Cymru. Rwy'n cydnabod y bydd y cyllid hwn yn cefnogi pedwar o 'nyrsys cyswllt' a fydd yn rhoi hyfforddiant i staff cartrefi gofal. Er hynny, nid yw'r wybodaeth a roddwyd yn rhoi digon o sicrwydd imi y bydd y camau hyn yn gyfystyr â datblygu a gweithredu 'rhaglen hyfforddi genedlaethol yn seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth safonol ynghylch dementia'.

Mae'r ymateb yn datgan hefyd fod Cylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 50% o'r staff sydd â chysylltiad â chleifion yn derbyn hyfforddiant penodol mewn dementia. Er hynny, dydy hi ddim yn glir a oes modd i staff cartrefi gofal nad ydyn nhw'n staff GIG gael mynediad i'r hyfforddiant hwn. Ac eithrio cyfeiriad at Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, does yna ddim ymrwymiad i

sicrhau bod rhaglen genedlaethol o hyfforddiant safonedig ar ddementia, wedi'i seilio ar werthoedd a thystiolaeth, yn cael ei datblygu.

Mae hyn yn siomedig gan fod gallu gofalwyr cyflogedig i ddeall profiadau pobl sy'n byw â dementia yn sylfaenol i'r ansawdd bywyd a'r gofal y bydd pobl hŷn yn eu cael. Heb sicrwydd y bydd rhaglen genedlaethol o hyfforddiant dementia wedi'i seilio ar werthoedd yn cael ei darparu a honno'n gyson yn egluro ac yn hybu darpariaeth gofal a chymorth priodol, bydd pobl hŷn yn parhau i wynebu'r risg o ddioddef esgeulustod emosiynol, yn ogystal â pharhau i gael eu camddeall a'u labelu fel 'herfeiddiol' neu 'anodd' am nad ydy'r gweithlu cartrefi gofal yn ymwybodol o sut i gyfathrebu ac ymateb i'w hanghenion.

Angen Gweithredu 3.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.6 Dylai datblygu trefniadau newydd o ran diogelu pobl hŷn sydd angen gofal a chefnogaeth yng Nghymru gydnabod yn bendant bod esgeuluso emosiynol yn fath o gamdriniaeth, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn canllawiau, arferion ac adrodd o dan y trefniadau statudol newydd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y diffiniad o esgeulustod o dan adran 197 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys methu diwallu anghenion emosiynol unigolyn, a bod Llywodraeth Cymru yn dangos bwriad i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod yr hyfforddiant sy'n cael ei roi i staff cartrefi gofal yn cynnwys adnabod a mynd i'r afael â chamdriniaeth ac esgeulustod emosiynol. Gan fod diogelu yn faes allweddol yn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu, fe fyddaf yn parhau i ddilyn y maes hwn i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau, yr arferion, yr hyfforddiant a'r adroddiadau o dan y trefniadau statudol newydd.

Angen Gweithredu 4.1

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

4.1 Datganiad Cenedlaethol a Hawliau i ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael ei ddatblygu ac mae ar gael i bobl hŷn, yn cynnwys:

- Mynediad rheolaidd i wiriadau iechyd y llygaid, y golwg a'r clyw
- Cyngor a chefnogaeth ynghylch diet
- Mynediad i wasanaethau podiatreg a deintyddol
- Mynediad i wasanaethau nyrsio arbenigol
- Mynediad i feddyg teulu a chefnogaeth ynghylch meddyginiaethau
- Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol
- Hyrwyddo iechyd a chefnogaeth ail-alluogi

Mae'n rhaid i hyn gynnwys gofal preswyl a nyrsio. Mae darparwyr cartrefi gofal yn sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau o ran gofal iechyd fel rhan o'u Pecyn Croeso' (gweler cam 1.2).

Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran arweinyddiaeth strategol a gosod gofynion ar Feddygon Teulu a Byrddau Iechyd i wella'r mynediad i wasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Mae hyn wedi'i wneud er enghraifft trwy'r Gwasanaethau Ychwanegol Cenedlaethol dan Gyfarwyddyd, y Cynlluniau Iechyd Sylfaenol a'r Canllawiau ar Iechyd y Geg mewn Cartrefi Gofal a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015.

Rwy'n siomedig fodd bynnag fod Llywodraeth Cymru wedi methu deall pwysigrwydd Datganiad Cenedlaethol o Hawliau i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, aelodau eu teuluoedd, eiriolwyr a staff cartrefi gofal fel dull o ddwyn Byrddau Iechyd i gyfrif pan fo pobl hŷn yn methu cael eu hawliau gofal iechyd. Mae hyn yn tanseilio gwaith i hyrwyddo llais a rheolaeth a llesiant cyffredinol pobl hŷn nad ydyn nhw efallai yn derbyn eu hawliau cenedlaethol i ofal iechyd.

Angen Gweithredu 4.5

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

4.5 Cynghorau lechyd Cymunedol yn gweithredu rhaglen dreigl o hapwiriadau mewn cartrefi preswyl a nyrsio er mwyn adrodd am gydymffurfio â'r datganiad Cenedlaethol o Hawliau a'r Hanfodion Gofal.

Er bod cyfeiriad at rôl a chyfrifoldebau Cynghorau lechyd Cymuned ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ansawdd a llywodraethiant y GIG ('Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth lechyd'), does dim sôn ynddo am ymestyn eu cylch gorchwyl i'r sector cartrefi gofal. Does dim cyfeiriad pendant ar hyn o bryd ychwaith at ddefnyddio aseswyr lleyg (a'r Cyngor lechyd Cymuned) yn y broses arolygu yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) arfaethedig, sef rhywbeth y byddai wedi bod yn briodol ei gynnwys. Gan hynny, does dim digon o fanylion yma i roi'r sicrwydd angenrheidiol imi ynghylch rôl CICau mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Angen Gweithredu 5.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

5.2 Datblygu a gweithredu pecyn aciwtedd â safon genedlaethol fydd yn cynnwys canllawiau ynghylch lefelau staffio a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn datblygu Fframwaith Safonau Gofal lechyd, ond dydy hi ddim yn glir a fydd hwn yn rhoi'r offer angenrheidiol i reolwyr cartrefi gofal i wneud yr asesiad cywir o lefel a sgiliau staff y mae eu hangen er mwyn hyrwyddo ansawdd bywyd a gofal y preswylwyr. Er fy mod yn croesawu'r cynigion i ddatblygu canllawiau ar staffio a photensial cynllun peilot yng Nghwm Taf, does gan yr ymateb mo'r manylion y mae arnaf eu hangen i fod yn gwbl sicr y bydd cwmpas y canllawiau staffio arfaethedig a darpariaeth y cynllun peilot yn gyfartal â'm Hangen Gweithredu.

Mae'n hanfodol bod unrhyw ganllawiau'n cydnabod y buddsoddiad emosiynol y mae ei angen, a'r amser y mae'n ei gymryd, i ddarparu canlyniadau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, sy'n cynnwys pwysigrwydd meithrin cyfranogiad ac ymgysylltiad cymdeithasol er mwyn llesiant y preswylwyr yn ogystal â llesiant a chynaliadwyedd y staff.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Rhannol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunan ddatblygu a gwelliannau parhaus.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ymagwedd wella genedlaethol, a'i bod yn amlygu rôl y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal. Rwy'n cydnabod y bydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ran i'w chwarae mewn hyrwyddo'r arferion gorau a chasglu a dadansoddi data am y sector yn ei grynsyth, ac rwy'n croesawu'r syniad o dîm rhithwir a all roi cymorth ymarferol. Er hynny, does dim digon o wybodaeth ychwanegol am sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol, ac i ba raddau y bydd yn darparu cymorth dwys a gweddnewidiol a fydd yn gwella safonau gofal ac ansawdd bywyd.

Gall diffyg cymorth ymarferol i ddarparwyr a rheolwyr cartrefi gofal y mae arnyn nhw eisiau ac angen gwella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn esgor ar gartrefi gofal lle mae arferion gwael yn parhau a lle mae adnoddau'r timau comisiynu yn parhau i gael eu dargyfeirio. O dderbyn y gefnogaeth glir a fynegwyd gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Darparwyr Gofal

Annibynnol i Wasanaeth Gwella Cenedlaethol, mae'n hanfodol bod yr Angen yma yn flaenoriaeth bendant yn rhaglen waith Gofal Cymdeithasol Cymru.

Er y byddai rhwydwaith rhithwir yn ddefnyddiol, mae'n hanfodol adnabod ac wedyn defnyddio ymarferwyr a sefydliadau arweiniol sy'n sbarduno arferion da. Gan y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei gyllido i hybu'r gweithlu gofal cymdeithasol o dan y ddeddfwriaeth newydd, gallai canolfan ymarferwyr yn uniongyrchol ynghlwm wrth Ofal Cymdeithasol Cymru ddarparu gwelliannau gwirioneddol a mesuradwy yn ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Angen Gweithredu 5.7

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

5.7 Dylai'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer staff gofal er mwyn sicrhau bod gweithlu cartrefi gofal yn cael eu rheoleiddio'n gadarn er mwyn gwarchod pobl hŷn

Ni welaf unrhyw dystiolaeth ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd y caiff proses gadarn i reoleiddio'r gweithlu cartrefi gofal ei rhoi ar waith i amddiffyn pobl hŷn. Mae fy Adolygiad i'n egluro effaith peidio â gwneud hyn ar yr unigolyn a'r sector. Rwy'n cydnabod ac yn croesawu adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil,² sy'n ategu fy Angen Gweithredu i a byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â hyn ar fyrder.

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, 2015

Angen Gweithredu 5.8

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

5.8 Dadansoddi cost a budd amodau a thelerau staff gofal. Dylai'r dadansoddiad hwn gynnwys effaith cyflwyno cyflog byw a/neu fuddion cyflogaeth safonol, megis tâl gwyliau, oriau dan gontract a thaliadau chwyddo.

Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector i wella'u telerau a'u hamodau, a'r swyddogaethau gwella a fydd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Er hynny, ac eithrio ymrwymiad i wella gwaith i gasglu a dadansoddi data am delerau ac amodau'r gweithlu gofal cymdeithasol, does dim byd yn yr ymateb hwn sy'n nodi a fydd dadansoddiad o'r manteision a'r costau yn cael ei gwblhau ai peidio.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn datgan bod gan yr Awdurdodau Lleol a'r darparwyr fuddiant mwy uniongyrchol yn hyn ddim fel pe bai'n dangos arweinyddiaeth o ran sicrhau bod gwir werth darparu gofal yn cael ei gydnabod a'i ddeall. Un peth arbennig i'w nodi yw ymroddiad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i wneud gwaith tebyg ynglŷn ag 'ymchwilio i faterion allweddol ynghylch y gweithlu gofal cartref'.³

Angen Gweithredu 6.1

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

6.1 Datblygu un fframwaith canlyniadau o ran ansawdd bywyd a gofal, a manyleb safonol, ar gyfer ei ddefnyddio gan yr holl gyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio, darparu a chomisiynu, ac archwilio cartrefi gofal, a dylid ei ffrydio er mwyn iddo fod yn safon ddiffiniol o fewn y Ddeddf Reoleiddio ac Archwilio yn y dyfodol. Mae'n rhaid iddo gynnwys cyfeiriadau at y canlynol*:

1. Annibyniaeth a hunanreolaeth
2. Rheolaeth ar fywyd bob dydd

³ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/homecare/?skip=1&lang=cy>

3. Hawliau, perthnasoedd a rhyngweithio positif
4. Uchelgeisiau (cyflawni, cynnal, dysgu a gwella sgiliau)
5. Iechyd corfforol a lles emosiynol (cynnal a gwella)
6. Diogelwch a gwarchod (rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddu)
7. Urddas a pharch
8. Amddiffyniad rhag cam-drin ariannol
9. Derbyn gwasanaethau o safon uchel

*Ffynhonnell: Fframwaith Canlyniadau Sir y Fflint

Un o fethiannau mwyaf arwyddocaol y system bresennol yw'r anghysondeb ar draws y peuoedd allweddol sy'n sail i ofal ac ansawdd bywyd o safon, neu weithiau y diffyg canolbwyntio ar y peuoedd allweddol hyn. Rwyf wedi rhoi croeso cyhoeddus i'r Fframwaith Canlyniadau Newydd a'i gysylltiad â datblygiadau yn Fframwaith Dyfarnu Ansawdd AGGCC, ond nid yw'r ymateb yn cynnig ffyrdd pendant o fynd ati hefyd i ymgorffori un model mewn arferion comisiynu, yn adroddiadau'r darparwyr nac yn ymwybyddiaeth ehangach y cyhoedd ynghylch yr hyn y mae ganddyn nhw hawl i'w gael.

Angen Gweithredu 6.4

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

6.4 Mae'n rhaid datblygu a gweithredu system integredig o archwilio iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn darparu craffu effeithiol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal iechyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Dangosodd fy Adolygiad mai annigonol yw'r gwaith craffu ar ofal iechyd pobl hŷn mewn cartrefi nyrsio ar hyn o bryd. Os na fydd arferion gwael yn cael eu hadnabod, yna bydd pobl hŷn yn parhau i wynebu'r risg o gael niwed.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi dilyn agenda iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn weithredol ar draws yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd, rwyf wedi cael siom nad yw hyn wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mil

Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithas Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil⁴ hefyd yn codi cwestiwn dull integredig, ac rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle hwn i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau ymagwedd integredig at arolygu iechyd a gofal cymdeithasol.

Er bod papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ansawdd a llywodraethiant y GIG (Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd) yn codi cwestiwn am ymagwedd integredig at arolygu, mae'n siomedig nad oes camau cyflym yn cael eu cymryd yng ngoleuni'r corff arwyddocaol o dystiolaeth ynglŷn â'r angen am ymagwedd integredig at arolygu, a ddangoswyd drwy fy Adolygiad i.

Angen Gweithredu 6.5

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

6.5 Dylid cyhoeddi adroddiadau 6.6) integredig blynyddol rhwng arolygiaethau sy'n darparu asesiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi nyrsio unigol

Fel y dywedais uchod, heb gyfeiriad penodol at y gofynion hyn ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ansawdd a llywodraethiant GIG ('Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'), does gen i ddim sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r Angen yma mewn gwirionedd.

Angen Gweithredu 6.6

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

6.6 Dylid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ansawdd gofal clinigol pobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yng Nghymru, yn unol â'r Hanfodion Gofal

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, 2015

Rwy'n siomedig ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Angen hwn. Does dim digon o wybodaeth wedi'i roi a allai gynnig sicrwydd o ansawdd y gwaith sydd eisoes ar ei hanner yn lleol, sy'n codi cwestiynau ynghylch cysondeb yr ymagwedd hon ac a fydd hi' cynnig digon o oruchwyliaeth er mwyn dod o hyd i themâu strategol a rheoli risg.

Fel y dangoswyd yn fy Adolygiad, mae yna fwlch yng ngoruchwyliaeth unigolion sy'n hunan-gyllido mewn cartrefi nyrsio a byddai'r cyfeiriadau at fecanweithiau monitro contractau yn hepgor hunan-gyllidwyr.

Er fy mod yn cytuno mai cyfrifoldeb yr Arolygiaeth ydy gwirio cydymffurfiaeth, dydy Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru ddim yn defnyddio Hanfodion Gofal fel rhan o'i fframwaith arolygu. Ni allaf weld unrhyw gam na chamau arfaethedig ynglŷn â'r Angen hwn, sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod gofal clinigol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal nyrsio yn cael ei asesu mewn dull effeithiol, cydlynol gydag adroddiadau blynyddol clir yn erbyn Hanfodion Gofal a bod risg yn cael ei hasesu a'i hadnabod mewn modd effeithiol ledled Cymru.

Angen Gweithredu 7.1

Casgliad Terfynol - Rhannol

7.1 Datblygu cynllun cenedlaethol i sicrhau cyflenwad o gartrefi gofal o safon yn y dyfodol, sy'n cynnwys:

- Rhagamcaniad demograffig cenedlaethol o'r angen, yn cynnwys tueddiadau a'r newidiadau a ragwelir o ran math y ddarpariaeth fydd ei angen o ganlyniad i aciwtedd a dibyniaeth gynyddol
- datganiad eglur ynglŷn â'r math o sylfaen/marchnad darparwyr a ffefrir yng Nghymru
- dadansoddiad cenedlaethol o rwystrau rhag mentro i'r farchnad
- datganiad eglur ynglŷn â buddsoddiad i dyfu sectorau gofal cymdeithasol sy'n fentrau cymdeithasol a chydweithredol, yn arbennig mewn ardaloedd sydd â sylfaen isel o ddarparwyr.
- Cynllun gweithredu eglur ar gyfer cyflawni'r sylfaen/marchnad darparwyr a ffefrir.

Rwy'n croesawu'r ymrwymiad ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ynghylch adroddiad ar ymagwedd genedlaethol at y farchnad yng Nghymru i'w baratoi gan y Rheoleiddwyr, a dadansoddiad o'r farchnad i'w gynhyrchu gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Rwy'n aros am fanylion pellach er mwyn cadarnhau a ydy'r rhain yn cyd-fynd â'm Hangen Gweithredu ond rwy'n fodlon ar gyfeiriad taith Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad, er bod gen i bryderon o hyd ynghylch datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â chyfyngiadau systemig ar y cyflenwad.

Angen Gweithredu 7.2

Casgliad Terfynol - Annerbyniol

7.2 Rhagamcanion cynllunio Gweithlu'r GIG yn nodi'r lefel nyrsio angenrheidiol presennol ac yn y dyfodol yn y sector gofal preswyl a nyrsio; yn cynnwys gofal am bobl hŷn sy'n byw â phroblemau iechyd meddwl, dirywiad gwybyddol a dementia.

Yr unig beth y mae ymateb Llywodraeth Cymru yn ei ddatgan mewn perthynas â'r Angen Gweithredu hwn ydy: 'Yn adeiladu ar waith sydd ar y gweill' nad yw'n dderbyniol fel ymateb i'm Hadolygiad statudol. Heb nyrsys cymwysedig a chymwys mae yna risg y bydd pobl hŷn yn cael eu gosod neu eu gadael mewn cartrefi gofal sy'n methu diwallu eu hanghenion. Dydy'r ymateb hwn ddim yn dangos unrhyw wybodaeth ynghylch difrifoldeb y sefyllfa gyfredol, sef nad oes digon o nyrsys arbenigol, gan gynnwys nyrsys iechyd meddwl, i ddarparu gofal nyrsio o safon, a chanlyniadau ansawdd bywyd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal ar draws Cymru.